

Ymdrin â phryderon am bobl agored i niwed

1.1 Rhaid adrodd ynghylch pob pryder a digwyddiad sy'n ymwneud â phobl agored i niwed wrth y Swyddog Adrodd Dynodedig yn unol ag Adran 12 y Polisi Diogelu. Dylid gwneud yr adroddiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Mae'n hanfodol adrodd ynghylch mân bryderon, hyd yn oed, wrth unigolyn canolog er mwyn sicrhau bod darlun mor gyflawn â phosibl ar gael.

1.2 Gall unrhyw aelod o staff neu fyfyrwr roi gwybod am bryder ynghylch diogelu person agored i niwed. Ni ddylai aelodau o staff gymryd yn ganiataol bod rhywun arall wedi mynegi pryder am y rheswm syml bod gan aelodau eraill o staff gyswllt mwy uniongyrchol o bosibl â pherson agored i niwed. Gall aelod o staff fynegi pryder:

- i. os ydynt wedi bod yn dyst i ddigwyddiad lle mae person agored i niwed yn cael ei niweidio neu ei gam-drin.
- ii. os yw person agored i niwed wedi datgelu neu wedi awgrymu camdriniaeth neu niwed.
- iii. os oes ganddynt bryderon am berson agored i niwed yn sgil eu hymddygiad neu eu hymddangosiad.
- iv. os oes ganddynt bryderon ynghylch person agored i niwed yn sgil ymddygiad oedolyn neu yn sgil rhywbeth y mae oedolyn wedi'i ddweud.
- v. os oes ganddynt bryderon ynghylch ymddygiad aelod arall o staff.

1.3 Gall aelodau o staff neu fyfyrwyr fynegi pryderon ynghylch unrhyw berson agored i niwed. Nid oes yn rhaid iddynt fod yn fyfyrwr neu'n cymryd rhan yn rhaglenni neu weithgareddau Prifysgol Aberystwyth. Er enghraifft, gall myfyrwr sy'n oedolyn ddatgelu gwybodaeth ynghylch plentyn; neu gall ymddygiad myfyrwr sy'n oedolyn ac sy'n gofalu am blentyn beri pryder.

1.4 Rhoddir gwybodaeth ynghylch sut i ymdrin â datgeliadau o niwed neu gamdriniaeth gan blentyn yn y Cod Ymddygiad.

1.5 Os yw pryder neu gŵyn yn ymwneud â'r Swyddog Adrodd Dynodedig, dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Gwirio Dynodedig.

1.6 Os yw aelod o staff yn credu bod y risg i'r person agored i niwed yn ddi-oed ac yn ddifrifol, dylai'r aelod o staff gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddi-oed, ac yna roi gwybod i'r Swyddog Adrodd Dynodedig cyn gynted â phosibl.

1.7 Bydd y Swyddog Adrodd Dynodedig yn penderfynu a oes angen cyfeirio'r mater at yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad hwn.

1.8 Bydd y Swyddog Adrodd Dynodedig yn rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Arweiniol ynghylch yr holl adroddiadau o bryderon a digwyddiadau, gan gynnwys a gawsant eu cyfeirio ymlaen ai peidio. Bydd adroddiadau i'r Grŵp Diogelu yn cael eu gwneud yn ddiennw.

Crynodeb o adrodd ynghylch digwyddiadau a materion sy'n peri pryder

1.10. Ymdrin â chŵynion neu honiadau ynghylch aelodau o staff

1.10.1 Mae'r weithdrefn gŵynion i fyfyrwyr yn cael ei hamlinellu yn y Llawlyfr Myfyrwyr.

1.10.2 Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n cael cŵyn ynghylch aelod o staff gan berson dan 18 oed roi gwybod i'r Swyddog Adrodd Dynodedig.

1.10.3 Bydd y Swyddog Adrodd Dynodedig yn penderfynu a yw'r gŵyn:

i. yn ymwneud â materion academaidd yn unig (e.e. graddio aseiniadau).

neu

ii. yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i amddiffyn person agored i niwed, gan gynnwys ymddygiad amhriodol; camdriniaeth; aflonyddu; bwlio.

Os penderfynir mai cŵyn gwbl academaidd ydyw, bydd y Swyddog Adrodd Dynodedig yn cofnodi'r penderfyniad hwn ac ni fydd yn cymryd unrhyw gamau pellach ei hun.

Os yw'r gŵyn yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i amddiffyn person agored i niwed, dylid dal ati i roi gwybod i'r Swyddog Adrodd Dynodedig am y broses a chanlyniad y gŵyn ym mhob achos.

1.10.4 Ymdrinnir â honiadau o gamymddwyn difrifol gan ddefnyddio gweithdrefnau disgyblu staff y Brifysgol.

1.10.5 Dylai Prifysgol Aberystwyth sicrhau bod staff sy'n destun cwynion neu honiadau gan bobl agored i niwed yn cael cymorth yn ystod unrhyw weithdrefn gŵynion neu ddisgyblu. Gall hyn fod ar ffurf cynrychiolwyr undeb, neu eiriolwr annibynnol.

1.10.6 Os bydd cŵynion neu honiadau'n cael eu cadarnhau, dylai'r Grŵp Diogelu:

- sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol i roi gwybod am bryderon;
- cynnal adolygiad i weld a ddylid newid polisiau ac arferion yn sgil y gŵyn a gafodd ei chadarnhau

1.10.7 Os nad yw cŵyn neu honiad yn cael ei gadarnhau:

- dylid cynnig cymorth parhaus i'r aelod o staff dan sylw wedi i'r weithdrefn ddod i ben. Gallai hyn gynnwys adolygu eu harferion er mwyn osgoi honiadau pellach, neu gwnsela.
- dylai'r Grŵp Diogelu gynnal adolygiad i weld a ddylid newid polisiau ac arferion er mwyn atal cŵynion na chânt eu cadarnhau yn y dyfodol.
- dylid dilyn hynt y mater mewn modd cynnil trwy gyfrwng y Swyddog Adrodd Dynodedig â'r asiantaeth briodol rhag ofn bod hyn yn arwydd o bryderon sydd gan yr unigolyn naill ai gartref neu mewn cyd-destun arall.